EUSWFRBE6

# Datblygu, gweithredu a monitro cynlluniau strategol i leihau’r risg o halogiad a sefyllfaoedd eraill o ddiffyg cydymffurfio

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â datblygu, gweithredu a monitro cynlluniau strategol i leihau'r risg o halogi a sefyllfaoedd eraill o ddiffyg cydymffurfio.

Mae’n cynnwys sicrhau bod systemau gwybodaeth yn addas i’r diben, dadansoddi gwybodaeth sydd wedi’i storio, tueddiadau sy’n dod i’r amlwg a lefelau risg, datblygu cynlluniau ac adnoddau, cyfleu cynlluniau i eraill a’u hadolygu’n rheolaidd.

Mae'r Safon hon ar gyfer rheolwyr adrannau cydymffurfio ffitiadau dŵr.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau y gellir storio, cynnal a chynhyrchu gwybodaeth i ddiwallu anghenion nawr ac yn y dyfodol
2. sicrhau bod gwybodaeth sy’n cael ei storio yn gallu darparu trywydd archwilio yn unol â gofynion rheoleiddiol
3. sicrhau bod gwybodaeth sy’n cael ei storio yn gallu cefnogi gweithgareddau’r adran gynllunio a gweithredu wrth fodloni deddfwriaeth cydymffurfio â data
4. casglu'r wybodaeth sydd ei hangen i ddatblygu cynlluniau o'r holl ffynonellau sydd ar gael
5. datblygu rhaglenni arolygu sy'n nodi meysydd neu fathau o sefydliadau sydd â risg uchel o halogiad, risg uchel i iechyd y cyhoedd a mathau eraill o ddiffyg cydymffurfio
6. datblygu rhaglenni arolygu sy’n defnyddio cofrestr o ddyfeisiau Math BA sydd wedi’u gosod mewn meysydd cyflenwi a chanlyniadau profion dyfeisiau cyfredol
7. datblygu rhaglenni arolygu sy'n hyblyg ac sy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw dueddiadau a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n cydnabod eu goblygiadau o ran halogiad a sefyllfaoedd eraill o ddiffyg cydymffurfio
8. defnyddio offer priodol i gategoreiddio meysydd ar gyfer gweithredu yn nhrefn blaenoriaeth yn ôl tebygolrwydd a graddau lefel y risg i iechyd y cyhoedd
9. sefydlu llinellau adrodd ac awdurdodi sy'n cefnogi cynnydd camau gorfodi i erlyn mewn cydweithrediad â chydweithwyr o'ch maes cyfrifoldeb a rhanddeiliaid allweddol eraill
10. datblygu rhaglenni arolygu ar y cyd â chydweithwyr o'ch maes cyfrifoldeb a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan nodi synergeddau â meysydd eraill yn y sefydliad
11. datblygu rhaglenni arolygu sy'n ymgorffori ac yn hyrwyddo'r defnydd o gontractwyr cymeradwy yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol
12. datblygu cynlluniau i addysgu rhanddeiliaid mewnol ac allanol am ofynion deddfwriaeth ffitiadau dŵr sy'n cefnogi rhaglenni arolygu
13. datblygu rhaglenni a chynlluniau arolygu sy'n cyd-fynd â pholisïau a strategaethau sefydliadol perthnasol ac amcanion penodol eich maes cyfrifoldeb
14. cymharu dulliau arloesol ac atebion wedi’u profi wrth ddatblygu rhaglenni a chynlluniau
15. nodi'r gofynion o ran adnoddau a'u hargaeledd nawr ac yn y dyfodol

16. cofnodi cynlluniau a rhaglenni mewn systemau gwybodaeth sefydliadol yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
17. diffinio dangosyddion a dulliau ar gyfer monitro a gwerthuso cynlluniau
18. cyfleu cynlluniau mewn ffyrdd sy'n sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gan gydweithwyr mewn adrannau eraill a rhanddeiliaid allweddol eraill
19. adolygu cynlluniau’n rheolaidd, yng ngoleuni newidiadau i strategaeth y sefydliad a’r amgylchedd gweithredu

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. deddfwriaeth berthnasol sy’n briodol i Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a’r Alban sy’n ymwneud â dylunio, gosod a chynnal a chadw systemau plymio, ffitiadau dŵr a chyfarpar sy’n defnyddio dŵr
2. manylebau rheoleiddiwr, safonau Prydeinig priodol a dulliau gosod cymeradwy gan gynnwys dyfeisiau Math BA (falfiau parth gwasgedd is) a’r hyn y mae’n rhaid i’r cwsmer roi gwybod amdano cyn ei osod
3. prosesau a gweithdrefnau rheoleiddiol, sefydliadol, gweithredol ac argyfwng perthnasol sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch a'r amgylchedd
4. lefelau’r gwasanaeth ar gyfer y cyflenwad dŵr sy’n ofynnol gan yr ombwdsmon
5. polisïau, strategaeth ac amcanion sefydliadol ac adrannol cyfredol ar gyfer ei adrannau ei hun ac adrannau eraill sy'n berthnasol i gynllunio a rhaglennu
6. polisïau a gweithdrefnau cynllun contractwyr cymeradwy gan gynnwys archwiliadau, prosesau disgyblu a chwynion
7. yr ystod o randdeiliaid mewnol ac allanol i hwyluso’r broses o wella gwybodaeth er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth
8. sut i ddiweddaru a chofnodi eich gwybodaeth eich hun am yr amgylchedd gweithredu presennol
9. beth fyddai'n gyfystyr â thorri deddfwriaeth ar gyfer gwahanol fathau o systemau plymio a'r rhan benodol o ddeddfwriaeth y byddent yn ei thorri
10. beth fyddai’n risg annerbyniol i’r cyflenwad dŵr ac iechyd y cyhoedd a chamau gweithredu a fydd yn sicrhau cydymffurfiad, gan gynnwys dulliau atal halogiad, defnyddio dyfeisiau ôl-lif a ffitiadau eraill a’r sefyllfaoedd y maent yn berthnasol iddynt
11. goblygiadau cyfreithiol peidio â chydymffurfio
12. y mathau o gofnodion y mae angen eu storio mewn systemau gwybodaeth adrannol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag arolygiadau blaenorol, adroddiadau arolygu, tramgwyddau penodol, mathau o eiddo, dyfeisiau atal ôl-lif, lleoliadau, rhifau cyfresol, dyddiadau gosod, adroddiadau profion blynyddol, cofnodion camau gorfodi, sgyrsiau, cytundebau, gohebiaeth hysbysu gan gwsmeriaid a thystysgrifau cydymffurfio gan gontractwyr cymeradwy
13. ffynonellau gwybodaeth am raglenni arolygu blaenorol, eu mathau a sut i gael gafael arnynt, gan gynnwys strategaethau a chynlluniau presennol a chanlyniadau

atebion blaenorol

14. sut i drefnu a dadansoddi gwybodaeth am raglenni arolygu i nodi lefelau risg, blaenoriaethau a thueddiadau
15. sut i asesu dichonoldeb atebion newydd a dulliau arloesol
16. sut i gyfathrebu â chydweithwyr a rhanddeiliaid a sicrhau ymrwymiad ganddynt
17. dulliau o fonitro, adolygu a gwerthuso cynlluniau

EUSWFRBE6

Datblygu, gweithredu a monitro cynlluniau strategol i leihau'r risg o halogiad a sefyllfaoedd eraill o ddiffyg cydymffurfio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Energy & Utility Skills |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2024 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Energy & Utility Skills |
| **RCU gwreiddiol** | N/A |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Gyfraith a gwasanaethau cyfreithiol, Arolygydd Dŵr, Crefftau Peirianneg ac Adeiladu |
| **Cyfres/Set** | Rheoliadau Ffitiadau Dŵr/Gorfodaeth Is-ddeddfau |
| **Geiriau Allweddol** | dŵr; ffitiadau; is-ddeddfau; rheoliadau; deddfwriaeth; cydymffurfiaeth; tramgwyddo; halogi; cynllun; strategaeth; risg; gorfodaeth; |